



**Older People's Commissioner for Wales**  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Mr Simon Dean  
Ymddiriedolaeth GIG Felindre  
Uned 2 Cwrt Charnwood  
Parc Nantgarw  
Nantgarw  
Caerdydd  
CF15 7QZ

Adeiladau Cambrian  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FL  
08442 640670  
gofyn@olderpeoplewales.com

12 Medi 2011

Annwyl Mr Dean,

**Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas: adborth a Hysbysiad**  
**Atodol yn gofyn am ragor o wybodaeth erbyn 30 Medi 2011**

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm cais am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'. Rwy'n gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech a roddwyd i ymateb i'm cais. Mae'r ymatebion sydd wedi dod i law yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i bobl hŷn yng Nghymru. Os bydd y Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn cymryd y camau y maen nhw wedi dweud y byddan nhw'n eu cymryd, dylid gweld gwelliant arwyddocaol ym mhrofiadau pobl hŷn yn yr ysbyty yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, gofynnais i Ymddiriedolaeth GIG Felindre ymateb i'r argymhellion, gan amlinellu sut y bydden nhw'n cydymffurfio â nhw. Os byddai'r Ymddiriedolaeth yn penderfynu peidio â chymryd camau mewn ymateb i'r argymhellion, roeddwn yn gofyn am esboniad dros beidio â chymryd camau. Daeth ymateb cyntaf yr Ymddiriedolaeth i law ar 15

Mehefin 2011. Ar ôl asesu'r ymateb hwnnw, anfonais Hysbysiad Ysgrifenedig yn gofyn am ragor o wybodaeth i'm darbwyllo y byddai buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hybu yng Nghanolfan Ganser Felindre.

Mae fy nhîm a mi wedi asesu'r ail ymateb yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan. Rwy'n fodlon ar ail ymateb Ymddiriedolaeth GIG Felindre i Argymhellion 1 (arweinyddiaeth ar y ward), 2 (dementia), 3 (anghenion ymataliaeth), 5 (gohirio rhyddhau), 6 (gwirfoddolwyr), 7 (lefelau staffio), 9 (cyfathrebu), 10 (profiad cleifion), 11 (arferion da) a 12 (gwybodaeth a sgiliau). Ymdriniodd yr ail ymateb â'r materion hyn yn fanylach a rhoi sylw mwy uniongyrchol i'r pwyntiau a godwyd yn fy argymhellion i.

Nid yw'r ail ymateb i Argymhellion 4 (gwybodaeth bersonol cleifion) ac 8 (amgylchedd y ward) wedi fy narbwyllo y bydd buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hybu yng Nghanolfan Ganser Felindre o ran y materion hyn. Mae'r ymateb i Argymhelliad 4 yn amlygu rhai mentrau da, ond nid yw'n dangos beth fydd yn cael ei wneud i ddiogelu gwybodaeth bersonol cleifion heblaw symud claf i ystafell arall neu gau llenni o amgylch y gwely (na fyddai'n arwain at breifatrwydd yn achos gwybodaeth lafar). Nid yw'r ymateb yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol imi y bydd rhannu gwybodaeth bersonol cleifion o fewn clyw pobl eraill yn dod i ben pryd bynnag y bo modd. I'r claf y mae unrhyw wybodaeth bersonol yn perthyn a dylid gwneud pob ymdrech i'w chadw'n breifat. Nid yw'r ymateb yn chwilio y tu hwnt i'r ateb amlwg o symud y claf i ystafell breifat ac mae'n brin o ran syniadau creadigol i fynd i'r afael â sefyllfaoedd ymestynnol. Er enghraifft, os nad oes modd symud claf i ystafell breifat, a allai lle preifat gael ei greu o amgylch y claf? Mae'n bwysig bod hawliau'r claf yn ganolog i'w ofal.

Nid yw'r ail ymateb i Argymhelliad 8 yn sôn am sut mae amgylchedd y ward yn ateb anghenion pobl hŷn sydd â dementia. Mae'r ymateb yn crybwyll y prosiect arwyddion sy'n cael ei sefydlu ond nid yw'n ei gysylltu ag anghenion cleifion dementia. Mae hyn yn peri siom am fod Argymhelliad 8 yn dweud y dylai 'anghenion y rheini â nam ar eu

synhwyrau neu ddemensia fod yn ganolog' i gydweithio â phobl hŷn a'u teuluoedd a'u gofalwyr, gan sicrhau bod gan bob claf fynediad boddhaol i gyfleusterau'r ward.

Felly, yn unol â Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007, rheoliad 15(6), mae'r llythyr hwn yn Hysbysiad Atodol i Ymddiriedolaeth GIG Felindre i ofyn am ragor o wybodaeth i'm darbwylo y cydymffurfir ag Argymhellion 4 ac 8. Byddwch cystal â rhoi'r wybodaeth hon erbyn **dydd Gwener 30 Medi 2011 am 12 canol dydd fan bellaf.**

Mae'n ofynnol imi gadw cofrestr, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn cynnwys manylion yr argymhellion a manylion unrhyw gamau pellach yr ydw i wedi'u cymryd, megis rhoi Hysbysiad Atodol i Fwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth benodol. Bydd y gofrestr ar ein gwefan ynghyd â phob ymateb a anfonwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre a'r llythyr hwn. Bydd y gofrestr ar gael ar bapur hefyd os gwneir cais amdano.

Pan fyddaf yn fodlon bod gen i'r cyfan o'r wybodaeth angenrheidiol, bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod yr argymhellion yn dod yn realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn yr hoffech eu trafod, mae croeso ichi gysylltu ag Anna Buchanan ar 02920 445034 neu [anna.buchanan@olderpeoplewales.com](mailto:anna.buchanan@olderpeoplewales.com).

Yn gywir,

Ruth Marks  
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru